Enw



DARLLENWCH
Numeri 21: 4-9



ADNOD ALLWEDDOL
Ioan 3:14


*Gofynnwch am help i chwilio am yr adnod hon*

*(Byddai Iesu yn ei alw'i Hun yn aml yn 'Fab y Dyn')*

## Stori 4 Duw'n rhoi gorchmynion

Roedd yr Israeliaid wedi bod yn teithio drwy'r anialwch am amser hir. Ond, roedden nhw'n dal i gwyno, gwaetha'r modd.




Roedd Duw'n dal i roi manna iddyn nhw. Roedden nhw mor anniolchgar! Digiodd Duw wrthynt oherwydd eu cwynion a phenderfynodd eu cosbi. Cyn hir daeth seirff (nadroedd) gwenwynig i'r gwersyll. Brathwyd y bobl a buodd nifer farw. Gwyddai'r bobl mai nhw oedd ar fai, felly daethant at Moses. "Rydym wedi pechu yn erbyn Duw," medden nhw. "Os gweli'n dda, gweddïa ar Dduw i fynd â'r seirff." Gweddïodd Moses ar Dduw. Dywedodd Duw wrth Moses am wneud rhywbeth rhyfedd. Roedd yn rhaid iddo wneud sarff o bres (metel o ryw fath) a'i gosod ar bolyn yn y gwersyll.

**C Gosodwch y brawddegau o'r stori yn eu trefn drwy eu rhifo 1-5. Mae rhif 1 wedi ei wneud drosoch.**

- [ ] Bu farw nifer o bobl.
- [1] Roedd yr Israeliaid yn grwgnach am fwyd a dŵr
- [ ] Dywedodd Duw wrth Moses am gymryd polyn a gosod sarff bres arno.
- [ ] Anfonodd Duw seirff i'w brathu.
- [ ] Gofynnodd y bobl i Moses weddïo ar Dduw.

8

Addawodd Duw na fyddai unrhyw un oedd wedi'i frathu yn marw, dim ond iddo edrych ar y sarff ar y polyn. Roedd pawb oedd yn credu hyn ac yn ufuddhau i Dduw yn cael byw. Dyna ffordd hawdd i osgoi marwolaeth!




**C** **Cysylltwch y dotiau i ffurfio'r sarff, a chwblhewch y frawddeg.**

**Er mwyn osgoi marwolaeth, roedd rhaid i'r Israeliaid e __ __ __ __ __ ar y sarff ar y polyn.**

4

Flynyddoedd yn ddiweddarach, esboniodd yr Arglwydd Iesu sut y mae'r stori hon yn dysgu gwers bwysig i bawb. Fel yr Israeliaid, mae pob un ohonom ninnau hefyd wedi pechu yn erbyn Duw. Ond mae Duw wedi paratoi ffordd i ni ddianc rhag y gosb am ein pechodau. Cafodd yr Arglwydd Iesu ei "ddyrchafu" (godi'n uchel) i farw drosom. Pan fyddwn yn credu hyn drosom ein hunain, mae Duw'n rhoi i ni fywyd tragwyddol, a chawn ein hachub!



**C** **Defnyddiwch un lliw i liwio pob siâp sy'n cynnwys dot, i ddarganfod ble cafodd yr Arglwydd Iesu ei ddyrchafu.**

**C** **Gosodwch y geiriau canlynol yn yr Adnod Allweddol.**

2

**sarff (neu neidr)** **ddyrchafu** **anialwch**

"Ac fel y dyrchafodd Moses y ________________ yn yr ________________ ,
felly hefyd y mae'n rhaid i Fab y Dyn gael ei ________________."

**Ioan 3: 14**

6

**cyfanswm**

Marciau
(i'w nodi gan yr arweinydd)

Cyfanswm

Cyfanswm Llawn

Cyhoeddwyd yn wreiddiol yn Saesneg gan: © Bible Educational Services. P.O. Box 42, Penarth, CF64 3YD.
Y gwersi ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim ar www.biblelinkit.com neu ffoniwch 01202 873500 am fwy o wybodaeth. Rhif elusen 1096157

Cyhoeddir y gwersi Cymraeg gan © 2008 Pwyllgor Amserbeibl Cymru.
Addasiadau Cymraeg gan Siân Roberts a Linda Lockley. Golygwyd gan Siân Roberts. Cysodwyd gan Ynyr Roberts.
Cyfres lawn o wersi dros dair blynedd i rai 4-15 oed ar gael i'w lawrlwytho yn rhad ac am ddim o **www.amserbeibl.org**
Am fanylion pellach neu i gyfrannu at y gwaith (rhoddion yn daladwy i 'Amserbeibl') cysylltwch ag:
Aled Davies, Cyngor Ysgolion Sul, Ael y Bryn, Chwilog, Pwllheli, Gwynedd LL53 6SH ☎ 01766 819120